

**Y GWASANAETH ADDYSG:  
CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION  
CAERDYDD**



**Amser:** 8.30am – 10.30am  
**Dyddiad:** 24th February 2021  
**Lleoliad:** Gwahoddiad Microsoft Teams

**DRAFT AGENDA**

<b>Cyf.</b>	<b>Eitem</b>	<b>Categori</b>	<b>Yn Arwain</b>
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY)	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol (20 Ionawr 2021) a materion yn codi:	Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi)	Cadeirydd
3	Fformiwla Ariannu Ysgolion 2021/22 <ul style="list-style-type: none"><li>• ADY</li><li>• Niferoedd Disgyblion</li><li>• TGCh</li></ul>	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Rob Green, Neil Hardee, Jenny Hughes
4	Dileu Swyddi, TGAC, CGG, Adnewyddu Asedau	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Neil Hardee, Rob Green
6	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol -

17 Mawrth 2021  
12 Mai 2021  
7 Gorffennaf 2021

**Y GWASANAETH ADDYSG:  
CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION  
CAERDYDD**



**Amser:** 8.30am – 10.30am

**Dyddiad:** 24 Chwefror 2021

**Lleoliad:** Microsoft Teams

**Yn bresennol:** Karen Dell'Armi - Cadeirydd (KD), Cllr Sarah Merry, Cllr Chris Weaver, Cllr Joel Williams (JW), Mel Godfrey (MG), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Marc Belli (MB), Ivor Gittins (IG), Jane Marchesi (JM), Suzanne Williams (SW), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), Adrian Dinsmore (AD), David Harris (DH), David Silver (DS), Kevin Hart (KH), Catherine Power (CP), Wayne Murphy (WM), Jenny Hughes (JHu), Louise Bloom – Clerc (LB)

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), Sarah Parry (SP), Abigail Beacon (AB), Sara Allen (SA)

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	<b>Ymddiheuriadau a chroeso</b>	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd aelodau a derbyniodd yr ymddiheuriadau.	
2	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi</b>	
2.2	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 <sup>fed</sup> Ionawr 2021 fel cofnod cywir.	
2.3	<p><u>Materion yn codi</u></p> <p>Cofnod 2.3: Dosbarthodd NH ymateb drafft ar yr adolygiad o wariant Ysgolion yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y drafft a rhoi sylwadau i NH erbyn dydd Gwener 5 Mawrth i swyddogion gwblhau ymateb.</p> <p>Cofnod 3.1: Anfonwyd llythyr ynghylch cyllid chweched dosbarth, darpariaeth prydau ysgol am ddim, niferoedd disgyblion a data CYBLD i Lywodraeth Cymru ar ran y fforwm. Nododd NH ffigurau dangosol ar gyfer dyraniadau chweched dosbarth wedi dod i law ar gyfer 2021/21. Byddai Caerdydd yn derbyn £14.5m, cynnydd o £1.3m (10.4%) ar y flwyddyn gyfredol, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Gofynnwyd i ysgolion â chweched dosbarth ragfynegi nifer disgyblion ar gyfer mis Medi 2021. Unwaith y bydd holl niferoedd y disgyblion yn dod i law, bydd amcanestyniad o'u dyraniadau yn cael ei</p>	Pawb

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<p>ddosbarthu i ysgolion. Bydd cyfrif gwirioneddol yn cael ei wneud ym mis Hydref ac yna caiff ei ailddosbarthu yn seiliedig ar niferoedd gwirioneddol.</p> <p>Cofnod 4.1: Rhoddodd RG drosolwg o falansau ysgolion ym mis 9/10. Nododd fod ysgolion yn disgwyl gwariant sylweddol cyn diwedd y flwyddyn ond eu bod yn gyfyngedig oherwydd yr amgylchiadau presennol. Byddai dyfarniad cyflog athrawon o £434,000 yn ychwanegu ymhellach at y balansau cronodig. Roedd cyfanswm y cyllidebau a gymeradwywyd gan lywodraethwyr yn sylweddol is na balansau ysgolion dros ben gwirioneddol, sydd wedi codi i lefelau nas gwelwyd o'r blaen. Rhagwelir pum diffyg ar hyn o bryd, gan ostwng o bosibl i dri erbyn diwedd y flwyddyn. Adolygir y sefyllfa a'r dulliau gweithredu cyffredinol a ddefnyddir yn barhaus.</p> <p>Bydd RG yn ysgrifennu at ysgolion yn dweud mai dim ond os oes ganddynt gydbwysedd anffafriol y dylent hawlio o gronfa caledi Llywodraeth Cymru. Nododd NN fod RG wedi rhoi canllawiau clir o'r blaen mai dim ond os effeithir yn andwyol ar eu cyllideb y dylai ysgolion gyflwyno hawliadau, ac y byddent yn siomedig pe bai rhai ysgolion wedi cyflwyno hawliadau pan nad oedd angen gwneud hynny.</p> <p>Gofynnodd MT am drosolwg o gyllidebau dros ben yn dangos cyfanswm yr hawliadau o gymharu â chyllidebau'r ysgolion. Bydd RG yn coladu data dienw sy'n manylu ar nifer a gwerth yr hawliadau, wedi'u halinio â ffigurau rhagamcanol unigol. Gofynnodd y Cadeirydd y byddai sefyllfa'r llynedd yn cael ei chymharu â sefyllfa eleni i weld symud yn gyffredinol ac yn ôl sector.</p> <p>Tynnodd NN sylw at hawliadau mamolaeth am 28 wythnos a allai wyro rhai ffigurau.</p>	RG
3	<b>Fformiwla Ariannu Ysgolion 2021/22</b>	
3.1	<p>Roedd y Cadeirydd wedi paratoi llythyr drafft at y Cynghorydd Weaver ar y fformiwla ariannu ysgolion, gofynnwyd i aelodau'r fforwm ystyried y llythyr ac anfon sylwadau at NH a RG erbyn diwedd y dydd.</p> <p>Rhoddodd RG gyflwyniad ar y fformiwla ariannu ysgolion ar gyfer 2021/22 pan nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd dyraniadau cyllideb ysgolion unigol yn cael eu rhyddhau yn yr wythnos sy'n dechrau dydd Llun, 8 Mawrth.</li> </ul>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog yn cael ei atal yn ganolog, ni fyddai angen i ysgolion ystyried dyfarniadau cyflog wrth weithio allan eu cyllideb ar gyfer 2021/22. Tybir bod cyllid yn 2.5% ar gyfer athrawon a 2% ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu. Os yw'n uwch, byddai cyllid ychwanegol yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Bydd y rhan fwyaf o gyllidebau cyfunol yn cael eu cadw ar yr un gwerth.</li> <li>• Bydd y gyllideb gyfunol ar gyfer ynni yn cynyddu yn unol â'r costau a ragwelir.</li> <li>• Penderfynir ar lefel y cadw ychwanegol sy'n uwch na'r gwerth presennol o £1.937 ar gyfer TGCh.</li> </ul>	
3.2	<p><u>Niferoedd Disgyblion</u></p> <p>Tynnodd RG sylw at ddadansoddiad a gynhaliwyd gan CTY (yn seiliedig ar gyfraddau geni a symud i mewn/allan o Gaerdydd), a oedd yn rhagweld gostyngiad o 9% yn nifer y derbyniadau a dderbynnir. Mae ffigurau a ddarparwyd gan ysgolion yn dangos cynnydd o 2%. Pe bai'r ffigurau gwirioneddol yn parhau i fod yn uwch na'r ffigurau rhagamcanol, byddai gwerth AWPU derbynfydd yn cael ei wanhau ac yn effeithio ar bob ysgol. Pe bai'r gostyngiad o 9% yn digwydd, byddai'r ysgolion yn wynebu addasiad negyddol sylweddol i nifer y disgyblion o fewn fformiwla 2022/23 i unioni'r niferoedd a oramcangyfrifwyd. Roedd NH wedi anfon e-bost at ysgolion yn gofyn iddynt ail-wirio rhifau eu disgyblion ond ni dderbyniwyd ymatebion.</p> <p>Holodd KH a ellid dadansoddi ceisiadau derbyn yr ysgol i wirio niferoedd disgyblion. Atebodd RG nad yw pob ysgol yn rhan o dderbyniadau cydlynol, sy'n lleihau gwelededd y carfannau cyfan. Gall teuluoedd hefyd wneud cais am nifer o ysgolion.</p> <p>Nododd MB nad yw ychydig o ysgolion ffydd yn rhan o dderbyniadau cydlynol ond bod arwyddion o niferoedd disgyblion a chadarnhad o dderbyn yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau. Mae cyllid ôl-16 yn dilyn y dysgwr gydag aiddosbarthu yn ystod y flwyddyn, mae prydau ysgol am ddim yn arbennig o heriol i rai ysgolion, gan awgrymu nad yw cyllid ysgolion yn gywir lle mae lefelau uchel o brydau ysgol am ddim. Gofynnodd am i fodel arall gael ei ystyried i'w ddsbarthu. Ymatebodd RG pe bai gostyngiad yn nifer y disgyblion yn cael ei weld mewn rhai ysgolion ond nid mewn ysgolion eraill, gellid ystyried mecanwaith dosbarthu. Ychwanegodd NH y byddai ffigurau'n cael eu gwella cyn gynted ag y ceir ail-rifiadau yn y</p>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	tymor fel y gall ysgolion gyllidebu ar gyfer amrywiannau, boed yn anffafriol neu'n ffafriol.	
3.3	<p><u>Grantiau</u></p> <p>Nododd RG gynnydd sylweddol (10%) gyfer darpariaeth Ôl-16.</p> <p>Mae CCD yn gweithio ar y sail ddosbarthu ar gyfer elfen GGA a Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol.</p> <p>Cynigir mai niferoedd disgyblion 2020 yw'r sail ar gyfer GGA, ac eithrio ysgolion sydd â grwpiau blwyddyn ychwanegol eleni.</p>	
3.4	<p><u>ADY</u></p> <p>Cynigiodd JH doriad dros dro ym mherthynas fasnachu seicoleg addysgol ac addysgu arbenigol gyda dad-ddirprwyo cyllidebau am un i ddwy flynedd o fis Medi 2021, i gydweithio ac ailfodelu gwasanaethau a ddarperir.</p> <p>Dangosodd adborth gan ysgolion fod ansawdd y gwasanaeth, y staff a phwysigrwydd y cymorth a ddarperir yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, nodwyd nifer o faterion megis gwerth am arian, hyblygrwydd, cyflymder ymatebion gyda Seicolegydd Addysg ac asesiadau, a gallu'r timau i ateb y galw mewn rhai ysgolion, yn enwedig anghenion lechyd a Lles Emosiynol sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig. Mae disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth mewn ysgolion prif ffrwd wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'r broses o nodi awtistiaeth wedi codi.</p> <p>Yn ogystal, mae'r diwygio a gweithredu ADY sy'n dechrau ym mis Medi 2021 yn dod â heriau o ran rolau a chyfrifoldebau newydd i ysgolion ac ALLau. Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer achosion newydd yn cael eu gweithio yn lle datganiadau. Mae gan ADY drothwy uwch nag AAA, a bydd newid mewn cyfrifoldebau yn digwydd gydag ysgolion yn nodi disgyblion ag ADY. Dull a arweinir gan yr ysgol yw nodi a pharatoi'r ddogfen statudol (CDU) yn y lle cyntaf, yn hytrach nag ALI, ac mae'n seiliedig ar wella ysgolion.</p> <p>Yn ogystal, mae'r ystod oedran rhaid i wasanaethau weithio gyda hi wedi ymestyn i blant a phobl ifanc cyn oed ysgol ac ôl-ysgol (0 i 25).</p> <p>Bydd SA a chymorth addysgu arbenigol yn parhau i gael eu darparu i ysgolion a bydd gwahanol ffyrdd o weithio yn cael eu harchwilio, byddai modelau'n cael eu treialu lle y bo'n briodol mewn un neu ddau glwstwr. Byddai grŵp rhanddeiliaid yn cael</p>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<p>ei greu ar gyfer goruchwyllo ac atebolrwydd gydag ysgolion. Byddai'r gwasanaeth a fasnachwyd wedi'i ailfodelu yn cael ei gyd-adeiladu i ddarparu ansawdd, dibynadwyedd, hyblygrwydd, dewis a gwerth am arian, ac i ddiwallu anghenion dull o gynhwysiant ac ADY a arweinir gan yr ysgol.</p> <p>Cyfarfu NH a JH yn ddiweddar â phenaethiaid ysgolion nad oeddent wedi prynu i mewn i'r gwasanaeth, i ddeall y trefniadau a oedd ganddynt ar hyn o bryd a goblygiadau'r cynnig i bob ysgol. Bydd trafodaethau ar y gwasanaeth yn parhau.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai nifer y staff yn yr ALI ac argaeledd diwrnodau/oriau yn newid. Cadarnhaodd JH na fwriedir i'r rhain newid, ond byddai ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r gwasanaeth cynhwysiant yn cael ei gynnal ar gyfer mis Medi, heb fod yn gyfyngedig i'r gwasanaethau a fasnachwyd i sicrhau bod y strwythur cywir ar waith. Ni fyddai'r capasiti ar gyfer gwasanaethau a fasnachwyd yn cael ei leihau; bydd yr awdurdod yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu model sy'n gweithio'n dda iddynt. Gellid addasu meysydd arbenigol.</p> <p>Roedd DH o'r farn y byddai'r rhan fwyaf yn croesawu adolygiad, i fod yn fwy addas i'r diben ar gyfer ffactorau amrywiol ar draws y ddinas. Gofynnodd am eglurder ynghylch dyrannu Seicolegydd Addysg a darpariaeth cymorth arbenigol ym mis Medi 2021. Dywedodd JH y byddai dyraniad SA yn seiliedig ar yr un fformiwla. Byddai sgysiau'n cael eu cynnal dros yr haf ar sut i weithio ym mis Medi. Mae recriwtio a chadw o fewn y gwasanaeth SA wedi gwella, mae nifer o SAau o ansawdd uchel wedi'u recriwtio ac mae rhai swyddi'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd i sicrhau capasiti llawn ar gyfer mis Medi.</p> <p>Ychwanegodd NH nad oedd gan yr ALI unrhyw fwriad i leihau'r dyraniad yn gyffredinol, byddai cyllideb gronfa yn cael ei chadw o fewn cyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Byddai unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu trafod ac ymgynghori arnynt gydag ysgolion; nid yw'n ymarfer torri cyllideb. Byddai'r gyllideb a'r ddarpariaeth yn cael eu cynnal hyd nes y caiff newidiadau mwy cadarn a manwl eu cyflwyno, pe bai angen.</p> <p>Nododd NN ei bod yn ymddangos bod mwy o gadw cyllidebau ar lefel ALI, fel IaD, TGCh a gofynnodd a fyddai hyn yn debygol o barhau. Ymatebodd NH mai'r bwriad yw ailddechrau fel model a fasnachwyd unwaith y caiff ei ad-drefnu i ddiwallu anghenion diwygio ADY.</p> <p>Esboniodd JH y byddai'r berthynas rhwng ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbenigol a chanolfannau adnoddau yn cael ei harchwilio. Gallai ysgolion arbenigol gael allgymorth gwell i</p>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<p>gynyddu arbenigedd i ysgolion prif ffrwd. Mae timau wedi dechrau gweithio ar sail clwstwr gyda chlystyrau ADY yn fuddiol.</p> <p>Rhoddodd MG sicrwydd nad oedd bwriad i gadw arian yn gyffredinol. Lle y bo'n briodol a bod achos i'w wneud, ymgynghorir ag ysgolion o ran cadw, er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i ysgolion. Egwyddor sylfaenol y cynnig yw'r angen i ADY fod yn greiddiol ac yn rhan annatod o wasanaethau ar draws ysgolion.</p>	
3.5	<p><u>TGCh</u></p> <p>Amlinellodd NH gynllun buddsoddi hirdymor TGCh yr ysgol. Byddai'r ALI yn cadw arian ar ran ysgolion i gyflawni model mwy cyson a chynaliadwy ar gyfer seilwaith buddsoddi a dyfeisiau TGCh i ysgolion Caerdydd.</p> <p>Disgwylir i'r gwaith ar seilwaith TGCh gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.</p> <p>Cyflwynwyd dros 10,000 o ddyfeisiau i ddisgyblion sy'n ddifreintiedig yn ddigidol. Cyflwynwyd 2,500 o ddyfeisiau Wi-Fi yn ystod yr haf ac mae mwy yn cael eu hanfon. Ers i'r pandemig ddechrau mae 20,400 o Chromebooks wedi'u dosbarthu i ddisgyblion sy'n ddifreintiedig yn ddigidol.</p> <p>Derbyniodd pob un o'r athrawon ddyfais gliniadur erbyn mis Medi 2020. Mae gliniaduron yn cael eu gwarantu am bum mlynedd gyda'r diwrnod busnes nesaf yn cael ei adnewyddu os yw'n ddiffygiol. Mae cit ac offer ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu bellach yn cael eu hystyried, mae tua 3000 o Chromebooks yn cael eu cynnig ar gyfer ysgolion.</p> <p>Newidiodd y grŵp strategaeth TGCh ddyhead i un ddyfais fesul disgybl ym mlwyddyn 3 ac uwch ac un ddyfais i bob dau ddisgybl mewn disgyblion cyfnod sylfaen. Argymhellwyd IPads ar gyfer y cyfnod sylfaen a Chromebooks ar gyfer grwpiau oedran hŷn. Roedd disgwyl i 6,392 o Chromebooks gael eu danfon i ddisgyblion Caerdydd erbyn mis Ebrill/Mai.</p> <p>Mae archwiliad sain-weledol ar gyfer pob ystafell ddosbarth ac ysgol wedi'i gwblhau, a derbyniwyd adroddiad terfynol. Amcangyfrifir bod angen gwariant o £1.5m y flwyddyn ar TGCh er mwyn dod ag ysgolion i'r lefel a ddymunir. Ar hyn o bryd mae'r pecyn cymorth TGCh yn darparu cymorth o ddydd i ddydd i ysgolion cynradd ac arbennig. (I raddau helaeth, mae gan ysgolion uwchradd eu rheolwyr rhwydwaith eu hunain.) Bydd NH yn mynychu cynhadledd y penaethiaid uwchradd ym</p>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<p>mis Mawrth i drafod cymorth mewn ysgolion uwchradd. Mae drafft o fanylebau i dendro ar gyfer darparwr TGCh yn cael ei gwblhau ar gyfer ysgolion cynradd ac arbennig, er mwyn ateb y galw a darparu cymorth ym mis Medi 2021. Gofynnwyd i ysgolion cynradd ac arbennig beidio â gwneud trefniadau cytundebol ar gyfer cymorth TGCh o ddydd i ddydd ar ôl mis Medi 2021. Byddai cysylltedd yn parhau i alluogi mynediad disgyblion gartref.</p> <p>Argymhellir cadw cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion 2.5% er mwyn cynnal cymhareb y ddyfais ar gyfer staff a disgyblion a pharhau i fuddsoddi mewn TGCh yn y dyfodol. Byddai 1% o'r grant Ôl-16 hefyd yn cael ei gadw. Soniodd NH am yr angen i gysoni cyfradd cadw ôl-16 â chyfradd cadw dirprwyedig ysgolion yn y gyllideb.</p> <p>Tynnodd MG sylw at y ffaith y byddai'r arian yn cael ei ddal ar lefel agregau, i'w wario ar ran yr ysgolion. Byddai'r rhaglen fuddsoddi yn galluogi dull mwy cyson a chynaliadwy, i adeiladu ar lwyddiant cyflwyno'r rhaglen yng Nghaerdydd hyd yma. Mae sefyllfa ariannol ysgolion yn caniatáu i fuddsoddiad gael ei ddefnyddio fel clustogfa yn y dyfodol. Gellid cynyddu neu ostwng y modelu yn ôl yr angen ac ymateb i amgylchiadau ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Awgrymodd MB wahanol fodolau ar gyfer gwahanol sectorau, gan anghytuno'n gryf â Chromebooks ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd, gan fod angen hyblygrwydd llechen mewn darpariaeth ôl-16. Cododd bryderon y byddai gostyngiad mewn cyllid yn arwain at ddiswyddiadau o fewn yr ysgol.</p> <p>Gofynnodd DH am roi amserlenni ar osod dyfeisiau sain-weledol, mae angen buddsoddiad y cytunwyd arno gan NH yn gyflym.</p> <p>Canmolodd yr Aelodau gyflymder y cymorth TGCh a'r gwasanaeth a roddwyd i ysgolion yn ystod y pandemig.</p> <p>Canmolodd AJ ragwelediad ALI wrth baratoi gwasanaethau canolog, a brofodd yn amhrisiadwy o ran cael ysgolion drwy'r pandemig, yn enwedig gyda TGCh ac iechyd a diogelwch. Gan fod Caerdydd ar frig y rhestr ar gyfer canran y cyllidebau dirprwyedig i ysgolion dylid ailedrych ar lefel y ddirprwyaeth i ystyried a oedd y cydbwysedd yn gywir ac yn briodol ar gyfer cynlluniau adfer COVID. Mae pwysau parhaus ac amgylchiadau gwahanol i'r adeg pan roddwyd lefelau dirprwyo ar waith am y tro cyntaf. Byddai'n berthnasol casglu cefnogaeth at ei gilydd i wella ymgysylltiad a lles disgyblion. Byddai dysgu ar-lein yn fuddiol mewn dyddiau eira. Gyda'r ansicrwydd sy'n</p>	LB



Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
	<p>cael ei wynebu, mae'n iawn y dylid parhau i ystyried yr elfennau hynny.</p> <p>Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, y Fframwaith ar gyfer gwerthuso gwelliant ac atebolrwydd, a chyflwyno ymatebion erbyn 5 Mawrth. Bydd rolau a chyfrifoldebau'n cael eu mireinio ar gyfer cymorth ac atebolrwydd. Bydd manylion yr ymgynghoriad yn cael eu dosbarthu i'r fforwm yn dilyn y cyfarfod. Os bydd digon o awydd gan aelodau FfCY am ymateb FfCY cydgysylltiedig i'r ymgynghoriad, y Cadeirydd i gyfansoddi llythyr ar gyfer sylwadau a chyflwyniad cyn y dyddiad cau sef 15 Mawrth.</p> <p>Rhoddodd NN gefnogaeth i gyllid cyfanredol.</p> <p>Tynnodd MG sylw at y cydweithio, y cydgyfrifoldeb a'r bartneriaeth yng Nghaerdydd 2030, sy'n rhagosodiad sylfaenol o'r cwricwlwm ar gyfer yr holl ddiwygiadau addysg, er mwyn cyflawni safonau uwch ar gyfer dysgwyr ledled Caerdydd.</p> <p>Anogodd KH i ailystyried dyfeisiau ysgol wrth i ysgolion adeiladu eu systemau eu hunain sy'n gweithio'n dda iddynt. Pe bai pecyn newydd yn cael ei ddarparu nad yw'n cyd-fynd â'u system, byddai'n broblemus ac nid mor effeithiol ag y gallai fod. Gofynnodd am dryloywder wrth ddsbarthu dyfeisiau i ysgolion. Ymatebodd NH y câi dyfeisiau eu trafod ymhellach o fewn y grŵp TGCh. Gofynnwyd i ysgolion nodi nifer y dyfeisiau a roddir ar gyfer disgyblion sy'n ddifreintiedig yn ddiigidol, bydd ffurflen ar-lein yn cael ei chreu i ddiweddarau'n rheolaidd a bydd swyddogion yn diweddarau lle mae dyfeisiau'n cael eu dosbarthu.</p> <p>Awgrymodd MB fodel TGCh gyda rhywfaint o optio i mewn ar gyfer dyfeisiau myfyrwyr a allai leihau cyfraniadau. Gallai ysgolion brynu dyfeisiau drwy gytundeb prydlesu ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Tynnodd NH sylw at y ffaith efallai na fydd rhai teuluoedd yn gallu fforddio prydlesu dyfeisiau; angen cyfle cyfartal yn gyffredinol.</p> <p>Cadarnhaodd MG y byddai manylion manylach yn cael eu defnyddio i gyfateb i anghenion ysgolion a phenaethiaid.</p> <p>Awgrymodd NH fod yr ALI yn cadw cyfran o'r balansau ysgol dros ben ar gyfer buddsoddi mewn TGCh. Cytunodd NN i'r awgrym. Argymhellodd JH y dylid targedu ysgolion sydd â balansau dros ben o flwyddyn i flwyddyn nid ysgolion sydd wedi derbyn arian ychwanegol a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion nad ydynt wedi gallu mynd i'r afael â hwy ers blynyddoedd lawer. Ateggodd AS sylwadau JH. Cytunodd NH y</p>	

Cyf.	Casgliadau/Campau Gweithredu	Pwy
	byddai amgylchiadau unigol ysgolion, ac effaith, yn cael eu hystyried.	
4	<b>Dileu Swyddi, TGAC, CGG, Adnewyddu Asedau</b>	
4.1	<p><u>Dileu Swyddi</u></p> <p>Nododd RG fod lefel y gwariant yn isel iawn a rhagwelir tanwariant sylweddol. O ystyried y tanwariant a amcanestynnir a sefyllfa heriol y gyllideb yn ystod y flwyddyn a wynebir gan y gyfarwyddiaeth Addysg, roedd swm o £500,000 wedi'i glustnodi at ddefnydd posibl gwrthbwysu'n rhannol orwariant Addysg ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Pe bai lefel y gwariant yn erbyn y gyllideb diswyddo yn ystod gweddill y flwyddyn yn isel, byddai hyn yn dal i alluogi trosglwyddo swm i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, i'w ddefnyddio yn erbyn costau diswyddo ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.</p>	
4.2	<p><u>CGG</u></p> <p>Nododd RG fod rhai hawliadau heb eu talu, ond ar hyn o bryd mae potensial ar gyfer gwarged bach. Byddai tanwariant yn debygol o glirio'r diffyg hanesyddol a darparu clustogfa fach.</p> <p>Hyd yma, mae cyllid caledi Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu costau asiantaeth/cyflenwi o ran absenoldeb yn deillio o COVID. Mae hyn wedi lliniaru y rhan fwyaf o effaith COVID-19 ar y ffigurau CGG, gan leihau'r angen cyffredinol i hawlio o'r gronfa. Erys risg sylweddol mewn perthynas â ffurflenni'n cael eu ffeilio'n brydlon.</p> <p>Byddai'r gwarged rhagamcanol o £229,000 a gariwyd ymlaen yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i ddarparu rhywfaint o yswiriant ar gyfer cynnydd annisgwyl mewn costau yn 2021/22. Ni fyddai'r gwarged yn ddigon i wrthbwysu'r angen am gynnydd mewn cyfraddau cyfraniadau yn 2021/22.</p>	
4.3	<p><u>TGAC</u></p> <p>Adroddodd RG orwariant ar y gyllideb TGAC gyfun o £869,000 ar ddiwedd mis Ionawr. Rhagwelir y bydd y gorwariant rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn tua £1,045,000, a byddai'n cael ei adennill gan ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio rhif disgybl wedi'i bwysoli yn y fformiwla ADY ar gyfer pob ysgol. Gan nad yw Ysgolion Arbennig yn elwa o'r gyllideb TGAC ar y gronfa, nid ydynt wedi'u cynnwys mewn adfachu.</p>	

Cyf.	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
4.4	<p><u>Adnewyddu Asedau</u></p> <p>Nododd RG y sefyllfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn a'r gorwariant rhagamcanol. Mae gan y rhaglen gyfalaf hyblygrwydd wrth gyflwyno neu wthio cyllid yn ôl. Roedd y gyllideb a bennwyd ar gyfer y flwyddyn yn fach ac nid oedd yn cymryd defnydd o arian ychwanegol a oedd ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r gorwariant i raddau helaeth yn dod o dan £5.5m a dderbyniwyd ar gyfer Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf Llywodraeth Cymru, gan osgoi'r angen i gyflwyno rhan o'r buddsoddiad asedau o £25m y cytunwyd arno yn 2018/19.</p>	
5	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
5.1	<p>Gofynnodd JH am y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid ar gyfer y rhaglen dysgu carlam. Dywedodd NH fod Llywodraeth Cymru wedi nodi £597,000 i grwpiau arholi ddal i fyny mewn ysgolion uwchradd. Ni ddarparwyd dyraniadau ysgolion unigol; rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf cyn y gynhadledd nesaf i'r pennaeth uwchradd.</p>	NH
6	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
6.1	17 Mawrth 2021.	

## Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd Diweddariad Dileu Swyddi

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mercher 24 Chwefror 2021

**Amser y cyfarfod:** 8.30am

**Lleoliad:** Microsoft Teams

### 1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar y sefyllfa alldro arfaethedig yn erbyn y gyllideb dileu swyddi gyfun ar gyfer 2020/21.

### 2. Cefndir a Chyd-destun

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, mae swm o £1 miliwn wedi ei neilltuo fel cyllideb gyfun o fewn y gyllideb ysgolion gyffredinol. Clustnodwyd yr arian hwn ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, sydd o fewn meini prawf y Cyngor ar gyfer ariannu o'r gyllideb gyfun. Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael yn unol â'r gyllideb a ddelid yn ystod y flwyddyn flaenorol. Y gwariant terfynol a gafwyd yn ystod 2019/20 oedd £1.230 miliwn, sy'n adlewyrchu gorwariant o £230,000. Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwysu gan y defnydd o gronfeydd wrth gefn a thanwariant yn erbyn cyllidebau cyfun eraill.

### 3. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r sefyllfa bresennol, yn unol â gwybodaeth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol a chostau a ysgwyddwyd ar y cyfrifyfr ariannol hyd yma, yn dangos costau ymadael gwerth £124,000. Mae'r swm wedi'i rannu fel a ganlyn:

Tabl 1: y sefyllfa bresennol

Costau/rhifau'r swyddi sy'n cael eu dileu	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd	Ysgolion Arbennig	Cyfanswm
Staff Addysgu	£0k (0)	£0k (0)	£0k (0)	£0k (0)
Staff Cymorth	£9k (9)	£115k (8)	£0k (0)	£124k (17)
<b>Cyfanswm</b>	<b>£9k (9)</b>	<b>£115k (8)</b>	<b>£0k (0)</b>	<b>£124k (17)</b>

### 4. Goblygiadau Ariannol

Ar sail y cyllid sydd ar gael, sef cyfanswm o £1 miliwn a'r gwariant hyd yma o £124,000, mae'n debygol cael tanwariant sylweddol yn 2020/21. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'n annhebygol y bydd cynnydd sylweddol yn lefel y costau diswyddo sy'n cael eu hysgwyddo ac, felly, mae'r siawns o danwariant sylweddol yn uchel.

O ystyried y tanwariant a amcanestynnir a sefyllfa heriol y gyllideb yn ystod y flwyddyn a wynebir gan y gyfarwyddiaeth Addysg, mae swm o £500,000 wedi'i glustnodi at ddefnydd posibl gwrthbwysu'n rhannol orwariant Addysg ar ddiwedd y flwyddyn. Pe bai lefel y gwariant yn erbyn y gyllideb diswyddo yn ystod gweddill y flwyddyn yn isel, byddai hyn yn dal i alluogi trosglwyddo swm i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, i'w ddefnyddio yn erbyn costau diswyddo ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.

O ran digonoldeb parhaus y gyllideb dileu swyddi gwerth £1 miliwn, mae'n anodd rhagweld yn gywir a fydd yn ddigonol ai peidio wrth fynd ymlaen. Gydag effaith lawn y pandemig eto i'w weld, o ran lefelau ariannu yn y dyfodol, nid oes modd rhagweld lefel y diswyddiadau wrth fynd i 2021/22. Felly, penderfynwyd cadw cyllideb £1 miliwn ac o bosibl ategu at hyn â chronfeydd wrth gefn, pe bai angen. Adlewyrchir y sefyllfa hon yn fformiwla ariannu ysgolion ddrafft 2021/22.

## **5. Argymhelliad**

Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb dileu swyddi gyfun yn 2020/21.

**Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd  
Taliad Gwella Anghenion Cymhleth**

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mercher 24 Chwefror 2021

**Amser y cyfarfod:** 8.30am

**Lleoliad:** Microsoft Teams

**1. Diben yr adroddiad**

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi manylion am y gwariant ar Daliadau Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn.

**2. Cefndir a Chyd-destun**

Yn 2019/20, cyfanswm y Taliadau Gwella Anghenion Cymhleth a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion oedd £10.474 miliwn. Erbyn diwedd y flwyddyn cyfanswm y TGACau oedd £12.627 miliwn yn adlewyrchu taliadau yn ystod y flwyddyn o £2.153 miliwn. Roedd cyllideb o £1.5m wedi'i neilltuo i ariannu'r TGAC yr oedd disgwyl iddyn nhw ddigwydd yn ystod 2019/20. Roedd y gyllideb yn annigonol a chafwyd y gorwariant yn ôl gan ysgolion ar ffurf adfachiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer 2020/21, cyfanswm y TGACau a ddirprwywyd i gyllidebau ysgol oedd £12.076 miliwn a'r gyllideb a neilltuwyd i dalu costau TGACau yn ystod y flwyddyn yn 2020/21 oedd £1.4 miliwn. Mae TGACau yn ystod y flwyddyn yn ariannu TGAC newydd, dyrchafiadau oed (Cynradd i Uwchradd; a Meithrin i Gynradd) a diwygiadau i lefelau cyllido.

Ni newidiodd y Cyllid Ychwanegol i bob categori ers 2019/20 gyda'r symiau blwyddyn lawn yn:

Meithrin	£5,849
Cynradd A	£14,624
Cynradd B	£8,775
Uwchradd A	£14,624
Uwchradd B	£11,699

**3. Materion Allweddol / diweddariad 2020-21**

Cyfanswm y TGAC a ddirprwywyd i ysgolion oedd £12,076,000. Ar ddiwedd mis Ionawr, cododd cyfanswm gwerth TGAC i £14,345,000, gan adlewyrchu'r taliadau o fewn y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 a Ionawr 2021 sef £2,269,000.

Neilltuir cyllideb gyfun o £1,400,000 i dalu costau TGAC yn ystod 2020/21. Felly, mae'r gyllideb hon eisoes wedi'i gorwario gan £869,000.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r hollt wybodaeth rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

	<b>Cyfanswm (ar ddiwedd Ionawr)</b>	<b>Cynradd</b>	<b>Uwchradd</b>
<b>Cyfanswm TGAC</b>	£14,345,149	£9,108,997	£5,236,152
<b>TGAC dirprwyedig</b>	£12,076,086	£7,447,858	£4,628,228
<b>TGAC a dalwyd Ebrill-Ionawr</b>	£2,269,063	£1,661,139	£607,924
<b>Cyllideb gyfun ar gyfer TGACau yn ystod y flwyddyn</b>	£1,400,000		
<b>Gorwariant ar y gyllideb</b>	<u>£869,063</u>		

Mae proffil y gwariant hyd yma'n awgrymu cynnydd cyfartalog o 15% ar TGAC 2019/20. Erbyn diwedd y flwyddyn, gallai cyfanswm TGAC fod yn £14,521,000 gan adlewyrchu taliadau o fewn y flwyddyn o £2,445,000. Byddai hyn yn orwariant o £1,045,000 yn erbyn y gyllideb gyfun a byddai'n cael ei adfer oddi ar Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu.

#### 4. Goblygiadau Ariannol

Y gorwariant presennol ar y gyllideb TGAC gyfun yw £869,000 ar ddiwedd mis Ionawr. Y gorwariant a amcanestynnir ar ddiwedd y flwyddyn yw tua £1,045,000 a byddai hyn yn cael ei adfer oddi ar Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu. Nid yw Ysgolion Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr adfachiad am nad ydynt yn cael budd o'r gyllideb TGAC gyfun.

Dylid nodi bod amcanestyniad TGAC 2020/21 yn adlewyrchu'r duedd o gynyddu taliadau TGAC i ysgolion bob blwyddyn. Mae'r cynnydd rhagamcanol o 15% mewn gwariant diwedd blwyddyn eleni yn cymharu â chynnydd o 13% yn 2019/20 ac 20% yn 2018/19.

Mae'n ymddangos bod y gyllideb gyfun o £1,400,000 ar gyfer 2020/21 yn annigonol i ateb y galw am TGACau yn ystod y flwyddyn, a bydd yn parhau i fod felly oni ddigwydd un o'r canlynol:

- Lleihad yn nifer y disgyblion a gaiff eu cyflwyno ag Anghenion Cymhleth
- Swm y cyllid i bob Taliad Gwella Anghenion Cymhleth yn cael ei adolygu a'i leihau.
- Swm y gyllideb gyfun yn cael ei gynyddu.

## **5. Argymhelliad**

Nodi'r sefyllfa alldro a ragamcennir ar Daliadau Gwella Anghenion Cymhleth ar gyfer 2020/21.



## Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd Cronfa Gyd-Gyflenwi

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mercher 24 Chwefror 2021

**Amser y cyfarfod:** 8.30am

**Lleoliad:** Microsoft Teams

### 1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw nodi cyfanswm terfynol y gwariant yn ymwneud â'r Gronfa Gyd-Gyflenwi (CGG) a amcangyfrifir ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2021.

### 2. Cefndir

Mae'r Tîm Cyllid Addysg yn monitro'r costau ariannol a'r rhesymeg dros ad-daliadau yn rheolaidd. Yn ystod mis Ebrill 2020, cyflwynodd ysgolion adroddiadau i RhCLI i gael eu digolledu am gostau'n ymwneud â CGG yn gysylltiedig â mis olaf 2019/20 ac roedd y costau ychwanegol hyn yn dod i gyfanswm o £380,000. Nodir y rhain ar wahân isod er mwyn sicrhau tryloywder.

### 3. Diweddariad 2020/21

Mae'r tablau isod yn amlygu gwerth yr hawliadau a gyflwynwyd i'r CGG a'r sefyllfa net ar gyfer y flwyddyn, sef tanwariant posibl o £650,000.

Tabl 1: gwerth yr hawliadau a gyflwynwyd i'r CGG

<b>Cyfanswm cyfraniadau ar gyfer 20/21</b>	<b>£4.39M</b>
Hawliadau Salwch	£2.22M
Hawliadau Mamolaeth	£1.18M
Hawliadau Eraill (gan gynnwys ataliadau)	£0.34M
<b>Cyfanswm Costau i'r CGG</b>	<b>£3.74M</b>
<b>Cyfanswm tanwariant ar gyfer 20/21</b>	<b>£0.65M</b>

Mae'r balans presennol a gariwyd ymlaen i 2020/21 yn adlewyrchu diffyg o £499,000.

Tabl 2: balans a gariwyd ymlaen i 2020/21

	<b>£m</b>
<b>Balans agoriadol</b>	<b>0.499</b>
Costau 2019/20 a Ad-dalwyd yn 2020/21	0.380
Tanwariant Net 2020/21	(0.650)

	<b>£m</b>
<b>Balans Rhagamcanol ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>0.229</b>

#### **4. Goblygiadau Ariannol**

Tybiwyd o'r blaen y byddai'r rhwymedigaeth hanesyddol yn cael ei hadennill drwy danwariant yn erbyn cyllid ar gyfer 2020/21. Er nad oedd hyn yn edrych yn debygol yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r amcanestyniadau diweddaraf hyn yn awgrymu y gellid dileu'r rhwymedigaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

Hyd yma, mae cyllid caledi Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu costau asiantaeth/cyflenwi o ran absenoldeb yn deillio o COVID. Mae hyn wedi lliniaru y rhan fwyaf o effaith COVID-19 ar y ffigurau CGG, ac wedi lleihau'r angen cyffredinol i hawlio o'r gronfa. Mae risg sylweddol o hyd o ran cyflwyno dychweliadau mewn modd amserol. Mae'r ffigurau uchod yn rhagdybio y bydd gweddill y flwyddyn yn parhau'n gyson o ran lefel yr absenoldebau a'r mynediad at gyllid Llywodraeth Cymru a welwyd hyd at ddiwedd Mis 10.

Byddai'r gwarged amcanestynedig presennol o £229,000 a gariwyd ymlaen yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i ddarparu rhywfaint o yswiriant ar gyfer unrhyw gynnydd annisgwyl mewn costau yn ystod 2021/22. Fodd bynnag, ni fydd y gwarged hwn yn ddigon i wrthbwyo'r angen am gynnydd mewn cyfraddau cyfraniadau yn 2021/22.

#### **5. Argymhelliad**

Argymhellir bod y sefyllfa ariannol a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael ei nodi a bod aelodau CGG yn sicrhau bod pob hawliad yn dychwelyd yn brydlon cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a fydd yn helpu i adrodd am sefyllfa derfynol gywir ar gyfer y flwyddyn.